

Taith Clwb Gwau

Mae Clwb Gwau Carmel Llanllechid yn Trefnu trip i Abakhan, Llannerch y Môr ddydd Llun, Mai 11. Os ydych am ddod, rhowch eich enw os gwelwch yn da i Eira Hughes neu Helen Williams.

Dosbarth Beiblaidd

Cynhelir y Dosbarth Beiblaidd nesaf yn Yr Haciau, Penisarwaun wythnos i nos Fercher, Mai 13.

Cymanfa Ysgolion Sul

Bydd Cymanfa Ysgolion Sul Annibynwyr Dosbarth Bangor a Bethesda yng nghapel Carmel, Llanllechid am 10.30 o'r gloch ddydd Sul, Mai 17.

Casgliad y Genhadaeth

Diolch i bawb a gyfrannodd at Gasgliad y Genhadaeth yn Capel Coch yn ystod mis Mawrth. Casglwyd £126.

Cyhoeddiadau

YR OFALAETH

Dydd Mercher, Mai 6: 'Dechreuadau' - ym Methlehem Talybont am 2.00 o'r gloch.

CEFNYWAUN AC EBENESER

Dydd Sul, Mai 10: Bydd yr Ysgol Sul

Y mis nesaf - Deiniolen

Mai 3

9.30 a.m. - Y Gweinidog
10.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m.—Dim Oedfa

Mai 10

10.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Mr John Roberts

Mai 17

10.00 a.m. - Y Gweinidog
5.00 p.m. - Y Gweinidog

am 10.15 o'r gloch. Gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan Mr John Roberts.

CAPEL COCH A NANT PADARN

Dydd Sul, Mai 10: Gwasanaethir am 10.00 o'r gloch gan y Gweinidog. Bydd yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch, a bydd oedfa MOLI am 5.00 o'r gloch.

REHOBOTH

Dydd Sul, Mai 10: Ni fydd oedfa.

BETHLEHEM

Dydd Sul, Mai 10: Bydd yr Ysgol Sul am 10.00 o'r gloch a gwasanaethir am 2.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

CARMEL

Dydd Llun, Mai 4: Cynhelir y 'Dosbarth Gwau' yn y festri rhwng 2.30 a 4.00 o'r gloch.

Nos Wener, Mai 8: Cynhelir 'Dwylo Prysur' am 6.30 o'r gloch.

Dydd Sul, Mai 10: Bydd yr Ysgol Sul am 10.30 o'r gloch ac am 5.00 o'r gloch cynhelir Oedfa Cymorth Cristnogol.

CYNLLUN EFE

Dydd Gwener, Mai 8: Cyfarfod Gweddi yn 'Cartref', Caethro rhwng 10.30 a 11.15 o'r gloch.

Y mis nesaf - Llanberis

Mai 3


10.00 a.m. - Y Parchg Dafydd Ll Hughes
11.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Y Parchg Dafydd Ll Hughes

Mai 10

10.00 a.m. - Y Gweinidog
11.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Oedfa MOLI

Mai 10

10.00 a.m. - Y Parchg Huw Pritchard
11.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Y Parchg Huw Pritchard



Gronyn

Taflen wythnosol Gofalaeth Fro'r Llechen Las
Rhif 636: Dydd Sul, 03 Mai, 2015

Gwerth bywyd

Wnes i mo'i brynu. A hyd y gwn i, mae'n dal ar gael ar e-bay. Roedd o braidd yn ddrud i mi. Wedi'r cwbl, mi gewch chi lyfrgell go lew o lyfrau am y £182.98 yr oedd y gwerthwr yn ei ofyn am y Beibl Cymraeg hwn. A sut Feibl gewch chi am y fath bris? Hen Feibl teuluol mawr? Beibl ag iddo glawr lledr crand? Copi ffacsibili o 'Feibl William Morgan'? Na, nid yn hollol. Yr hyn gewch chi yw copi ail law o'r *Beibl Cymraeg Newydd (Argraffiad Diwygiedig)* mewn cyflwr cymharol dda! Hynny ydi, y Beibl clawr caled, coch tywyll sydd i'w gael yn newydd sbon yn y siopau am £15 neu lai! Mae'n amlwg nad oes gan y gwerthwr hwn y syniad lleiaf am werth y llyfr y mae'n ceisio ei werthu. Go brin y caiff brynwr yn fuan iawn.

Mewn un ystyr, mae yna lawer o bobl debyg i'r gwerthwr, heb fath o syniad am werth y Beibl. Hen lyfr llychlyd ydyw i rai; llyfr diflas ac amherthnasol i'w bywydau; llyfr i'w anwybyddu a'i roi heibio. Ond i'r Cristion, mae'n llyfr o bwys mawr. Y llyfr hwn yw'r llyfr pwysicaf a feddwn, am mai Gair Duw ydyw. Y Beibl yw neges Duw i bobl, ac o fewn ei dudalennau y dysgw'n am ddaioni Duw a'i gariad yn Iesu Grist, ac am yr angen i ni garu pobl eraill fel y carodd Crist ni. Dyma'r llyfr mwyaf gwerthfawr o holl lyfrau'r byd gan mai ynddo y dysgw'n am gymwynas fawr Duw yn rhoi i ni obaith a bywyd. Dyma'r llyfr pwysicaf oll, er nad yw hynny'n golygu y dylem

dal £182.98 am gopi ail law, a ninnau (diolch am hynny) yn medru prynu copi newydd am ffraisiwn o'r pris.

Mae gwybod gwerth pethau'n bwysig. Dirmyg llwyr at werth bywyd sy'n gwneud i bobl ymelwa trwy fasnach annynol symud pobl o wlad i wlad mewn amgylchiadau dychrynlyd. O golli golwg ar hynny, mae modd codi crochris am gludo pobl mewn lori, heb fwyd na diod, am ddyddiau, cyn eu hanfon i'w tranc yn nyfroedd Môr y Canoldir. A thbed ai methiant i weld gwerth bywyd sy'n gwneud i rai pobl beidio ag ymateb i'r apêl am gymorth i drueiniaid Nepal wedi'r ddaeargryn a wnaeth y fath ddfrod yno wythnos yn ôl?

Mae'n dda gweld mudiadau Cristnogol fel Tearfund a Chymorth Cristnogol ar flaen y gad yn yr ymdrech i helpu pobl Nepal. Roedd y ddau wedi dechrau tynnu sylw at yr argyfwng hwn o fewn oriau i'r ddaeargryn. Ers hynny, fel sy'n arferol mewn argyfyngau tebyg, mae'r ddau'n rhan o apêl y Pwyllgor Argyfyngau Brys (DEC). Mae modd cyfrannu arian trwy DEC, ac mae modd cyfrannu'n uniongyrchol trwy'r mudiadau hyn. Mae gwybodaeth lawn am y modd y mae'r ddwy elusen yn helpu pobl Nepal ar eu gwefannau: www.tearfund.org www.christianaid.org.uk

Trwy gyfrannu, onid ydym yn dangos ein bod yn deall rhywbeth am werth bywyd ac am werth y Beibl a'i neges?

Gofalaeth Fro'r Llechen Las

Cefnywaun (P), Deiniolen
Ebeneser (A), Deiniolen
Capel Coch (P), Llanberis
Nant Padarn A), Llanberis
Rehoboth (P), Nant Peris
Bethlehem (A), Talybont
Carmel (A), Llanllechid

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd
Ffôn: 01286 872390
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:
gronyn.wordpress.com
neu gronyn.org

Heddiw

Gwasanaethir yn Capel Coch am 10.00 a 5.00 o'r gloch gan y Parchg Dafydd Lloyd Hughes, Cearnarfon. Bydd yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch.

Gwasanaethir yn Neiniolen am 9.30 o'r gloch gan y Gweinidog. Bydd yr Ysgol Sul am 10.15 o'r gloch.

Gwasanaethir yn Rehoboth am 2.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

Bydd yr Ysgol Sul yn Llanllechid am 10.30 o'r gloch a gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

Bydd yr Ysgol Sul yn Nhalybont am 10.00 o'r gloch, a gwasanaethir am 2.00 o'r gloch gan y Parchg Emllyn Richards, Cemaes.

Cofion

Angladd

Cydymdeimlwn â Mr Emyr Griffiths, Plas Ogwen, Bethesda yn ei brofedigaeth o golli ei briod Mrs Elina Griffith a fu farw yng Nghartref Cerrig yr Afon, Y Felinheli wythnos i ddoe, dydd Sadwrn, Ebrill 25, yn 93 mlwydd oed.

Cynhaliwyd ei gwasanaeth angladd yng nghapel Carmel, Llanllechid fore ddoe, Mai 2 dan arweiniad y Gweinidog. Cymerwyd rhan gan y Parchg Dafydd Coetmor Williams, a chafwyd teyrnged i'w fodryb gan Mr Gareth Pritchard. Mrs Helen Williams oedd yr organydd.

Bu Mrs Elina Griffith yn aelod ffyddlon iawn o'r eglwys yng Ngharmel, ac roedd parch mawr ati yn ei hardal fel cymydog a chyd-aelod o'r eglwys. Bu'n gweithio am flynyddoedd yn Ysgol Pen y Bryn, yn y gegin ac fel gofalwraig. Roedd ei theulu yn bwysig iddi, a bu hithau'n ffyddlon iddynt ac yn garedig wrthynt ar hyd ei hoes.

Treuliodd ei misoedd olaf yng Ngherrig yr Afon, ond 'Erw Fair', Garneddwen, Bethesda fu'n gartref iddi hi a'i phriod ar hyd y blynyddoedd.. Cydymdeimlwn â'r holl deulu yn eu colled.

Swper y Gymdeithas

Cafodd aelodau Cymdeithas Undebol Deiniolen eu Swper Blynyddol diwedd tymor yng Nghlwb Golff Caernarfon nos Lun diwethaf. Unwaith eto, roedd y croeso a'r bwyd yn ardderchog. Cafwyd sgwrs ddiddorol yn olrhain peth o hanes pentref Deiniolen gan y gŵr gwadd, Mr John Dilwyn Williams, Penygroes, sy'n aelod o staff Archifdy Cyngor Gwynedd. Diolchwyd iddo gan Mr Brian Pric.

Diolch yn fawr iawn i Jane a Neville Thorman Jones ac Eirian Jones am holl drefniadau cyfarfodydd y Gymdeithas dros y tymor diwethaf.

Marwolaeth

Roedd yn chwith iawn clywed fore ddoe am farwolaeth Mrs Janet Mackay, Stryd Ceunant, Llanberis yn Ysbyty Gwynedd. Roedd yn aelod ffyddlon o'r eglwys yn Capel Coch, ac wedi ymdrechu i ddod i'r oedfaon er iddi fynd yn llesg ers sawl blwyddyn bellach. Bydd cyfle i ddweud rhagor amdani yr wythnos nesaf.

Cyfarfod Chwarter

Cynhaliodd Annibynwyr Gogledd Arfon eu Cyfarfod Chwarter ym Mhendref, Bangor nos Fercher diwethaf, Ebrill 29, dan arweiniad y Parchg Gareth Edwards, Cyffordd Llandudno.

'Dechreuadau'

Mae Pwyllgor Bugeiliol Cyfarfod Chwarter yr Annibynwyr wedi trefnu gweithgareddau mewn gwahanol rannau o'r sir ar gyfer yr wythnosau nesaf.

Mae gwahoddiad i eglwysi'r Ofalaeth hon i gyfres o gyfarfodydd a gynhelir ym mis Mai dan arweiniad y Parchg Casi Jones, Clynog, Swyddog Cynnal ac Adnoddau Undeb yr Annibynwyr yn y Gogledd.

Bydd 4 sesiwn i drafod 'Pwy ydyn ni fel eglwysi' a 'Lle rydyn ni'n mynd heddiw'. Gwahoddir yr eglwysi i anfon 2 neu 3 aelod i'r cyfarfodydd hyn. Bydd pob sesiwn yn awr o hyd ac yn cynnwys trafod, myfyrio ar ddamau o'r Beibl, a meddwl am bethau ymarferol y gellir gweithredu arnynt.

Bwriedir i'r aelodau hyn wedyn adrodd am y cyfarfodydd wrth aelodau'r eglwys gan rannu'r syniadau a'r awgrymiadau gyda hwy dan arweiniad y Gweinidog. Cynhelir y sesiynau hyn ar brynhawn Mercher, rhwng 2.00 a 3.00 o'r goch., ar y dyddiadau a ganlyn: Mai 6, 13, 20; a Mai 27 neu Mehefin 3

Bydd y cyfarfod cyntaf ym Methlehem Talybont am 2.00 o'r gloch, ddydd Mercher, Mai 6.

Fel dilyniant, bwriedir i Casi ymweld â'r eglwysi unigol ar gyfer dau sesiwn arall, sef Sesiwn 5: Edrych allan i'r gymuned a Sesiwn 6: Creu cynllun i'r eglwys ar gyfer y blynyddoedd nesaf.

Cymorth Cristnogol

Dyddiad Wythnos Cymorth Cristnogol eleni yw Mai 10–16.

Os gall rhywrai helpu gyda'r casgliad yn Llanberis eleni a wnewch chi ddweud wrth y Gweinidog mor fuan â phosibl os gwelwch yn dda. Mae angen rhagor o bobl i helpu i gasglu o ddrws i ddrws er mwyn i ni allu ymweld â phob rhan o'r pentref. Ni lwyddwyd i wneud hynny'r llynedd oherwydd prinder casglyddion.

Bore Coffi

Cynhelir Bore Coffi er budd Cymorth Cristnogol yn neuadd Ogwen, Bethesda rhwng 10.00 a 12.00 o'r gloch fore Sadwrn nesaf, Mai 9.

Cwrs Plant yn y Bala

Bydd Penwythnos Plant yr Ofalaeth yng Ngholeg y Bala eleni o nos Wener hyd ddydd Sul, Mai 15–17. Mae'r cwrs hwn ar gyfer plant 8 i 12 oed ac mae croeso cynnes i'ch plentyn ddod iddo.

Cost y penwythnos fydd £60. Bwriedir trefnu bws eleni eto i nôl a danfon y criw i'r Bala. Mae'n gyfle arbennig i'r plant ddysgu am Iesu Grist trwy weithgareddau o bob math, yn cynnwys gemau a gwaith crefft a chanu a stori.

Os am ragor o fanylion cysylltwch â'r Gweinidog. Mae ffurflenni ar gael i archebu eich lle, ac mae angen gwneud hynny erbyn dydd olaf Ebrill fan bellaf.